# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia
Cofnodion: Tachwedd 2017

Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
12.00 – 13.15, dydd Mawrth 28 Tachwedd 2017
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc: Y Cynllun Gweithredu ar Ddementia

## Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Dr Dai Lloyd AC; Craig Lawton (ar gyfer Suzy Davies AC); Heledd Roberts (Rhun ap Iorwerth AC)

Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer's Cymru - ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol); Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain); Catrin Edwards (Hospice UK); Ruth Chamberlain (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru); Daisy Cole (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru); Sharon Ford (Amgueddfa Cymru); Ceri Williams (Gofal Cymdeithasol Cymru); Rachel Niblock (DEEP); Stephen Boyce (Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru); Nesta Lloyd-Jones (Conffederasiwn GIG Cymru); Paul Harding (Marie Curie Cymru); Dr Chineze Ivenso (Cadeirydd sy'n dod i mewn - Cyfadran Seiciatreg yr Henoed)

Ceri Higgins, Nigel Hullah, Madeline Phillips (pobl y mae dementia yn effeithio arnynt / gofalwyr / gwirfoddolwyr).

## Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- Croesawodd **Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod
- Ymddiheuriadau: Simon Thomas AC

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod blaenorol

- Cyflwynodd **Lynne Neagle AC** gwestiwn i Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Lles (Rebecca Evans AC) ar 9 Hydref ynghylch y broses ymgynghori ar gyfer y Strategaeth Gofalwyr (dosbarthwyd y cwestiwn a'r ateb gyda'r cofnodion)
- Ysgrifennodd **Lynne Neagle AC** at y Gweinidog newydd dros Blant a Gofal Cymdeithasol (Huw Irranca-Davies AC) ar 28 Tachwedd yn argymell proses ymgynghori fwy trylwyr sy'n ymgorffori barn gofalwyr (dosbarthwyd y llythyr gyda'r cofnodion)
- Gwnaeth **Huw Irranca-Davies AC,** y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol, ddatganiad ar 24 Tachwedd 'Cymru: Gwlad sy'n Cefnogi Gofalwyr' (a ddosbarthwyd gyda'r cofnodion)

## Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Cynllun Gweithredu ar Ddementia Llywodraeth Cymru

- Ymatebodd tua 1200 o bobl a 119 o sefydliadau i'r ymgynghoriad.
- Mae'r cyhoeddiad wedi llithro o'r amserlen wreiddiol, a chaiff ei gyhoeddi bellach yn y Flwyddyn Newydd.
- Deallir fod awydd am ddull sy'n seiliedig ar hawliau, ond mae'n rhaid cydbwyso hyn â realiti.
- Ceir pwyslais ar y dull 'tîm o amgylch y person'.

- Pwyslais ar gamau gweithredu a chynnydd yn cael eu mesur a'u monitro drwy gydol oes y ddogfen - ymhen tair blynedd, bydd adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn y camau a nodwyd.
- Y gobaith yw y bydd y cynllun yn cael ei gynhyrchu cyn i'r Byrddau Iechyd Lleol gyflwyno eu Cynlluniau Integredig Interim.
- Hefyd, bydd Grŵp Sicrhau Cyflenwi'r Cynllun Gweithredu ar Ddementia, sy'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, i fonitro cynnydd yn rheolaidd.
- Mae'r iaith yn dechnegol, ond mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a ddaeth yn uniongyrchol gan randdeiliaid - ac mae angen cydbwysedd ynghylch ar gyfer pwy mae'r ddogfen.
- Ceir cytundeb i raddau helaeth o amgylch y pwyntiau gweithredu ond ceir anghytundeb ynghylch y defnydd o iaith.
- Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn gobeithio y bydd y cynllun a gyhoeddir yn cynnwys camau gweithredu go iawn ac ystyrlon, sy'n fesuradwy ac yn cael eu gosod ar amserlen, a bod cydbwysedd yr iaith yn iawn - ond mae'n cydnabod ar y dechrau y bydd angen iddo gyfaddawdu ar hyn, ac na fydd pawb yn fodlon.

## Trafodaeth

- Dywedodd **Nigel Hullah** fod yr iaith yn y ddogfen ddrafft yn glinigol ac nad yw'n hawdd ei defnyddio, er bod y cynnwys yn adlewyrchu'r broses ymgynghori a sylwadau a wnaed gan bobl y mae dementia yn effeithio arnynt.
- Diolchodd **Rachel Niblock** i Ysgrifennydd y Cabinet am gyfranogiad DEEP yn y broses ymgynghori, a chynigiodd ymgynghoriad pellach â phobl y mae dementia yn effeithio arnynt er mwyn helpu i ddod o hyd i gydbwysedd o ran iaith.
- Awgrymodd **Daisy Cole** fod anawsterau gyda'r ddealltwriaeth o hawliau dynol o fewn Llywodraeth Cymru - nad yw dull sy'n seiliedig ar hawliau yr un fath â nodi bod y llywodraeth yn cytuno â Datganiad Glasgow. Cynigiodd amser a chymorth i ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau yn y cynllun.
- Soniwyd y byddai'r Datganiadau Dementia yn ychwanegu gwerth at y ddogfen
- Amlygodd **Catrin Edwards** bwysigrwydd gweithio ar draws gwasanaethau, ac ymgorffori gofal diwedd oes a gofal lliniarol yn y cynllun - a nododd **Lynne Neagle AC** fod gofal diwedd oes yn ffurfio rhan fawr o ymateb y Grŵp Trawsbleidiol i'r ymgynghoriad.
- Croesawodd **Dr Rosslyn Offord** lefel y manylion yn y camau gweithredu.

## Unrhyw fater arall

- **Catrin Edwards** - mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol wedi lansio ymchwiliad i anghydraddoldeb mynediad a byddai'n croesawu tystiolaeth gan fynychwyr y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia (dosbarthwyd y wybodaeth gyda'r cofnodion)

## Camau i'w cymryd erbyn y cyfarfod nesaf

- Cytunwyd y byddai **Lynne Neagle AC** yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ar ran y Grŵp Trawsbleidiol yn amlinellu pryderon ynghylch diffyg dull sy'n seiliedig ar hawliau yn y ddogfen ddrafft (dosbarthwyd copi gyda'r cofnodion)

## Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- Dydd Mawrth 6 Mawrth 2017 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
- Dydd Mawrth 12 Mehefin 2017 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead

Bydd un o'r cyfarfodydd yn y dyfodol yn canolbwyntio ar waith rhwng cenedlaethau gyda phlant ysgol a phobl y mae dementia wedi effeithio arnynt.